

FRÂN WEN

YNYS ALYS



PECYN ADNODDAU CREADIGOL
EDUCATIONAL RESOURCE PACK

YNYS ALYS

Mae Ynys Alys yn gynhyrchiad byw sy'n cyfuno theatr, cerddoriaeth bop a rap ysy'n dilyn merch ifanc wrth iddi fynd ati i chwilio am ei hannibyniaeth.

Mae'n bryd i Alys ddechrau byw ei bywyd gorau. Ond caiff ei chaethiwo mewn hen hunlle' cyfarwydd, anghyfarwydd.

Mae'r cynhyrchiad yn archwilio pwy yda ni mewn adegau o newid a'r hyn 'da ni wir yn gobeithio dal gafael arno mewn byd newydd.

Mae'r sioe yn teithio rhwng 17 Mawrth a 9 Ebrill, fydd Ynys Alys yn perfformio ym Mangor, Pwllheli, Rhosllannerchrugog, Aberystwyth, Caernarfon, Merthyr Tudful, Llanelli a Caerdydd.



ADNODDAU YCHWANEGOL



PROLOG /
PROLOGUE

↓ LAWRLWYTHO DOWNLOAD



CERDDORIAETH /
MUSIC

↓ LAWRLWYTHO DOWNLOAD



PECYN DYSGWYR /
WELSH LEARNER

↓ LAWRLWYTHO DOWNLOAD

CYFLWYNIAD

Gall Ynys Alys fod yn berthnasol i amryw bynciau ac asesiadau meysydd llafur lefelau TGAU a Safon Uwch Gyfrannol / Uwch CBAC.

Mae Ynys Alys yn ddrama bolyffonig sy'n ymdrin ag amryw themâu canolog gan gynnwys:

- Annibyniaeth.
- Aeddfedrwydd a dod i oed.
- Etifeddiaeth.
- Hanes Cymru.
- Daeareg.
- Perthynas a pherthnasau.

Yn ei hanfod, drama am annibyniaeth, etifeddiaeth, a gweledigaeth yw Ynys Alys. Dilynnir y prif gymeriad, Alys, wrth iddi ymateb i'r cyfle a'r her y mae bod yn annibynnol yn eu cynnig. Gyda hynny, archwilir elfennau megis hanes, daeareg, etifeddiaeth, treftadaeth, perthyn a pherthnasau, a galar. Drwy gydol hyn, plethir dwy naratif wahanol sy'n cynnwys amryw agweddau cysylltiedig.



CYFLWYNIAD

Mae'r naill naratif yn adrodd perthynas mam a merch, Cati a Luned, sy'n berthynas llawn tensiwn. Mae Cati'n wynebu salwch angheuol ac am i'w merch dderbyn ei hetifeddiaeth a'i threftadaeth ar ffurf y fferm lle y cafodd Luned ei magu, ond nid ydy Luned am gael ei chlymu wrth le penodol. Pobl, profiadau, a straeon sy'n bwysig i Luned, nid lleoliadau daearyddol.

Dilyna'r stori arall ddau gerddor go wahanol i'w gilydd yn cydweithio ar albwm cysyniadol. Mae'r naill gerddor, sydd o gefndir eisteddfodol, Cymraeg, eisiau datblygu ei sain a herio'i hun i greu gwaith a fyddai'n apelio at gynulleidfa ehangach. Mae'r cerddor arall, sydd o gefndir Cymreig gwahanol, am arbrofi hefyd ond caiff gynnig i ddilyn ei drywydd cerddorol ei hun a mynd i borfeydd brasach. Daw cyfeillgarwch dros dro'r ddau i ben. Mae'r ddau gymeriad yn newid cryn dipyn erbyn diwedd y ddrama, ond maent yn gymaint gyfoethocach fel pobl o fod wedi cael y profiad hwn.

Yr hyn a geir, felly, ydy drama unigryw sydd â gwead amlhaenog, a straeon amrywiol yn cydbblethu i greu cynhyrchiad sy'n ddramatig, yn gerddorol, ac yn arloesol.



TASG

DADANSODDI

Wedi gwyllo perfformiad o'r ddrama, ystyriwch y canlynol:

- Pa fath o ymdriniaeth a gafwyd o thema annibyniaeth.
- Sut y trafodwyd agweddau ar Gymru a Chymreictod drwy gydol y gwaith.
- I ba raddau roedd y drafodaeth am ddaeareg wedi ategu at brif themâu'r ddrama.



TASG

PWNC: CYMRAEG

Ar gyfer tasg ddiarholiad TGAU Cymraeg, sef astudio drama brintiedig neu gynhyrchiad a welwyd mewn theatr neu a wylwyd ar y teledu neu ar DVD, gofynnir ichi ymateb i'r gwaith dan sylw'n greadigol. Wrth feddwl am Ynys Alys, ymatebwch i'r tasgau isod gan geisio cynnig ymatebion creadigol gwreiddiol ac egnïol.

Tasg 1

1. Lluniwch restr o 8 gair sy'n crisialu'r ddrama a welwyd.
2. Ewch ati i osod yr 8 gair yn nhrefn eu pwysigrwydd mewn perthynas â'r ddrama.
3. Lluniwch restr o 6 thema a oedd yn eu hamlygu eu hunain yn y ddrama.
4. Defnyddiwch yr 8 gair a'r 6 thema i lunio taflen gyflwyniadol i'r ddrama ar gyfer pobl sydd heb ei gweld.

Tasg 2

Defnyddiwch un o themâu canolog y ddrama a lluniwch saith brawddeg yn nodi sut roedd y themâu hynny yn eu hamlygu eu hunain gyda phob un o'r saith cymeriad.

Tasg 3

Lluniwch ymson Alys yn cerdded am y bws y diwrnod mae hi'n gadael cartref am y brifysgol.

- Rhowch sylw penodol i'r teimladau y buasai wedi eu profi.
- Meddyliwch am y math o gwestiynau a fuasai ganddi.
- Ystyriwch unrhyw ofnau a fuasai gan Alys.

Tasg 4

Ysgrifennwch bytiau o ddyddiadur Cati gan ystyried yn benodol y digwyddiadau a welwyd yn y ddrama.

- Ydy Cati'n trafod ei dyheadau dyfnaf?
- Beth sy'n cael ei gyfleu o ran treftadaeth ac etifeddiaeth?
- A oes cyfeirio at Luned?
- Sut mae Cati'n teimlo am ei salwch? A ydy hi'n cyfeirio ato neu'n ei anwybyddu'n llwyr?

Tasg 5

Ysgrifennwch olygfa ychwanegol rhwng Luned a rhywun arall sydd ar long yn teithio i Batagonia ym 1865.

- A oes yna drafod y byd a'r bywydau mae'r ddau gymeriad yn eu gadael?
- Pa fath o ffocws sydd gan y ddau gymeriad?
- A oes gwahaniaeth cefndiroedd rhwng Luned a'r cymeriad arall?
- A ydy'r ddau yr un oed neu o genedlaethau gwahanol?
- Ai'r un rhesymau a ysgogodd Alys i groesi'r lwerydd â'r cymeriad arall?

Tasg 6

Ysgrifennwch negeseuon testun rhwng y ddau gerddor union flwyddyn ar ôl i'w prosiect ddod i ben.

- Pam bod un o'r cerddorion wedi cysylltu efo'r llall?
- Beth sy'n cael ei fynegi yn y negeseuon?
- Sut mae'r cymeriadau wedi datblygu erbyn hyn?
- -A oes yna newid yn eu hymddygiad?
- A oes gwahaniaeth yn eu hagwedd at ei gilydd?
- Sut mae'r defnydd o iaith yn adlewyrchu eu cymeriadau a'u safbwyntiau?

Tasg 7

Mae angen ichi ysgrifennu crynodeb o albwm Ynys Alys ar gyfer Spotify. Mae gennych chi 250 gair. Beth wnewch chi ei ysgrifennu?

TASG

PWNC: DRAMA

DEHONGLI THEATR

Mae uned 'Dehongli Theatr' TGAU Drama, sydd ag arholiad ysgrifenedig, yn ei gwneud yn ofynnol ichi ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio. Gwneir hyn drwy ymateb i ddarn o theatr fyw.

Mae'n ofynnol ichi ddadansoddi a gwerthuso agwedd ar un darn o theatr fyw yr ydych wedi ei weld yn ystod eich cwrs. Fe'ch argymhellir hefyd i weld mwy nag un perfformiad byw wrth baratoi ar gyfer yr asesiad hwn fel bod digon o gyfle i ateb cwestiynau ar amrywiaeth o agweddau yn ystod yr arholiad.

Bydd disgwyl ichi ddadansoddi a gwerthuso'r modd y mae ystyr yn cael ei gyfleu drwy rôl gwneuthurwyr theatr mewn perfformiad proffesiynol cyfoes.

Gan hynny, ystyriwch y canlynol mewn perthynas ag Ynys Alys:

Cyflwyniad

- Enw'r ddrama a phwy oedd yr awdur(on).
- Pwy oedd y cwmni a gynhyrchodd y ddrama?
- Yn lle welsoch chi'r cynhyrchiad?
- Yn fras, sut brofiad oedd gwylio'r cynhyrchiad?

Stori

- Yn gryno, beth oedd stori'r ddrama?
- Sut gafodd y ddrama ei chyflwyno?
- A oedd y straeon yn hawdd i'w dilyn?
- A oedd plot y ddrama'n gredadwy?
- A oedd plot a strwythur storiol y ddrama'n effeithiol?

Actorion

- Sawl actor oedd yn y ddrama?
- A oedd un neu fwy o'r actorion yn arbennig o drawiadol?
- Pa mor llwyddiannus oedd portread yr actorion o'r gwahanol gymeriadau?
- A oedd y rhyngweithio rhwng yr actorion yn argyhoeddi?
- A ddefnyddiodd yr actorion ddulliau penodol megis symudiad corfforol neu eu llais mewn ffordd effeithiol i gyfleu eu cymeriadau.
- A oedd perfformiadau'r actorion yn gredadwy?
- A oeddech chi'n tosturio wrth ac yn cydymdeimlo gyda'r cymeriadau?
- I ba raddau oeddech chi'n malio am ffawd y cymeriadau?
- Beth oedd y gydberthynas rhwng y perfformwyr a'r gynulleidfa?

Cyfarwyddo

- A oedd y gwaith cyfarwyddo'n llwyddiannus?
- I ba raddau roedd y perfformiad yn cynnig islais thematig?
- Pa fath o gyfarwyddo a ddefnyddiwyd?
- Ym mha ffordd roedd y cyfarwyddo wedi effeithio ar ymateb cychwynnol a therfynol y gynulleidfa?
- A oedd yr arddull a ddefnyddiwyd yn briodol?
- A oedd yna enghreifftiau o arbrofi? Pa mor llwyddiannus oedd hynny?

Dyluniad y set

- A oedd y set yn drawiadol?
- Beth oedd nodweddion gwahanol y set?
- Pwy ddyluniodd y set?
- A ddefnyddiwyd symboliaeth?
- Beth oedd diben y defnydd o lefelau?
- Pa fath o fyd roedd y set yn ei gyfleu?
- A fanteisiwyd ar y gofod i'r potensial llawnaf?
- Sut fath o naws ac atmosffer roedd y llwyfan yn eu cyfleu?
- A wnaed defnydd o bropiau? Pa mor briodol oeddent?
- A ddefnyddiwyd capsiynau? Pa mor effeithiol oeddent?

Goleuo a sain

- I ba raddau roedd y ddrama'n dibynnu ar effeithiau goleuo a sain?
- Sut oedd yr effeithiau golau yn cyfleu teithiau'r cymeriadau?
- A oedd y goleuo'n effeithiol?
- Sut oedd y goleuo a'r sain yn cydweithio i greu naws benodol?
- Roedd cerddoriaeth yn nodwedd gref gan y ddrama – a oedd hynny'n llwyddiannus?
- A oedd y gerddoriaeth yn cyfrannu'n fawr at y cyfanwaith?
- Ym mha ffordd roedd geiriau'r caneuon yn perthyn i eiriau Alys, Cati a Luned?
- Pwy ysgrifennodd geiriau'r caneuon?
- Pwy gynhyrchodd y gerddoriaeth?
- Pa mor effeithiol oedd y gerddoriaeth?

Gwisgoedd a cholur

- Pa fath o wisgoedd a ddefnyddiwyd yn y perfformiad?
- Sut oedd y gwisgoedd yn adlewyrchu natur y cymeriadau?
- A oedd y gwisgoedd yn newid?
- I ba raddau roedd y gwisgoedd yn adrodd stori ychwanegol i'r hyn oedd yn digwydd ar y llwyfan?
- A ddefnyddiwyd colur?
- Pa mor bwysig oedd colur i'r perfformiad?
- Pwy oedd yn gyfrifol am y gwisgoedd a'r colur?



Adwaith ac ymateb

- Beth oedd ymateb y bobl o'ch amgylch?
- A gafwyd cymeradwyaeth frwd?
- A ddywedwyd pethau cadarnhaol am y cynhyrchiad? Pa fath o bethau?
- A ddywedwyd pethau beirniadol am y perfformiad? Pa fath o bethau?
- A wnaethoch chi rannu eich barn ag eraill? Pam wnaethoch chi hynny?
- Pam ydy hi'n bwysig ystyried ymateb cynulleidfafa?

Y perfformiad

- Sut oedd y ddrama hon yn cymharu gyda chynyrchiadau eraill rydych wedi eu gweld yn ddiweddar?
- A oedd thamâu'r ddrama wedi cydio ynoch?
- A oeddech chi wedi dysgu rhywbeth newydd?
- -Pe baech yn gorfod cymharu'r ddrama, mewn unrhyw ffordd, â drama arall, sut fyddech chi'n gwneud hynny?
- I ba raddau fuasech chi'n annog eraill i fynd i wyllo'r ddrama?




TASG

ADOLYGIAD YNYS ALYS

Defnyddiwch y nodiadau yr ydych wedi eu llunio ar gyfer y cwestiynau uchod i lunio adolygiad o berfformiad o Ynys Alys.

Dylech strwythuro'ch adolygiad yn glir gan adeiladu ar ben gwahanol bwyntiau'n rhesymegol ac yn gydlynol. Ystyriwch ddefnyddio is-deitlau wrth ichi ysgrifennu drafft o'ch adolygiad ac yna'u dileu wrth baratoi'r drafft terfynol.



PWNC: HANES

ASTUDIAETHAU MANWL : CYMRU A'R PERSBECTIF EHANGACH.

Mae Ynys Alys yn rhychwantu cyfnodau sy'n cydfynd â dau o'r pedwar cyfnod dan sylw ar gyfer Astudiaeth Fanwl TGAU Hanes:

- 1C. Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad, 1930-1951
- 1Ch. Caledi, Cyfoeth ac Anniddigrwydd, 1951-1979

Yn yr uned hon, mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar gyfnod amser byr cynhwysfawr a chydlynol yn hanes Cymru o fewn Prydain.

1. Ystyriwch:

- a. Pa mor gymhleth oedd cymdeithas yng Nghymru yn ystod cyfnod Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad, 1930-1951.
- b. Ym mha ffordd roedd y ddrama'n cyfleu cymhlethdod y gymdeithas yn y cyfnod hwn?

2. Sut roedd profiad pobl yng Nghymru yn nodedig yn ystod cyfnod Caledi, Cyfoeth ac Anniddigrwydd, 1951-1979?

3. I ba raddau roedd cenedlaetholdeb yn ddylanwadol yn y cyfnodau 1930-1951 a 1951-1979?

4. A lwyddodd y ddrama i ddarlunio'r cyfnodau hyn?

5. Sut bortread a gafwyd yn y ddrama o'r cyfnodau hyn?

6. A oedd yna wahaniaeth barn yn y ddrama ynglŷn â digwyddiadau nodedig y cyfnodau dan sylw?

TASG

7. Mewn un olygfa, roedd Cati'n darllen y papur newydd am refferendwm datganoli 1997.
 - a. Pa fath o agwedd a gyflwynwyd mewn perthynas â chanlyniad y bleidlais?
 - b. A oedd ymateb Luned a Cati yr un fath? Beth oedd arwyddocâd hynny?
8. Chwaraewyd detholiad o ddarlith fawr Saunders Lewis, Tynged yr Iaith, yn y ddrama – beth oedd pwrpas hynny?
9. A ellid bod wedi trafod mwy am berthynas Cymru a'r byd yn y ddrama? Pam?
10. Cyfeiriwyd at hanes ymfudo nifer o Gymry i Batagonia ym 1865 yn y ddrama. Ym mha ffordd roedd yr hanes hwnnw wedi effeithio ar gyfnodau 1930-1951 a 1951-1979, os o gwbl?



PWNC: HANES

GWEITHIO FEL HANESYDD.

Diben yr uned 'Gweithio fel hanesydd' (nad asesir ag arholiad) yw hwyluso datblygu ac asesu sgiliau hanesyddol a sgiliau ehangach nad oes modd eu hasesu'n effeithiol mewn sefyllfaoedd arholiad.

1. Lluniwch restr o'r holl nodweddion hanesyddol sydd yn y ddrama.
2. Ystyriwch sut gafodd y gwahanol nodweddion hynny eu cyflwyno.
 - a. Pam ddewisiwyd cyfnodau penodol yn hanes Cymru?
 - b. Beth yw eich barn am blethu ffaith a ffuglen mewn drama?
 - c. A oedd y ddrama'n adlewyrchiad teg o'r cyfnodau a'r bobl yr oedd yn eu cynrychioli?
3. Ewch ati i ysgrifennu blog byr:
 - a. Nodwch y ffordd y cyflëwyd un o'r cyfnodau hanesyddol yn y ddrama ac ystyriwch sut yr oedd yn dehongli'r oes.
 - b. Chwiliwch Google am un o'r cyfnodau hanesyddol a gyflëwyd yn y ddrama a sylwch yn ofalus ar y ffordd roedd y golygfeydd byrion hynny yn perthyn i'r cyd-destun hanesyddol gwirioneddol.

TASG

4. Darllenwch y detholiad hwn o'r ddrama ac ystyriwch:

- a. Pa ddadleuon sy'n cael eu cyflwyno.
- b. Pwy mae'r ddau gymeriad yn eu cynrychioli.
- c. A oes tebygrwydd rhwng y sefyllfa a ddarlunnir yn y ddrama ym 1865 a'r hyn sy'n digwydd heddiw?
- d. Gyda phwy ydych chi'n ochri?

LUNED: Dwi yn mynd.

CATI: A be ddigwyddith i bob dim os nad wyt ti'n ei gymryd o?

LUNED: Fedrwn chi'm fy nghadw i yma, fy nghaethiwo fi at hen dy, at hen hanes. Diolch, Mam, ond dim fi pia fo. Dwi angen torri fy nghwys fy hun.

CATI: Cefnu arna i am ryw 'Gymru newydd'! Beth am y Gymru yma? ... Meddiannu gwlad rhywun arall er mwyn rhyw ryddid i chdi.

Saib fer.

LUNED: Dwi yn mynd.

5. Pa fath o ddehongliad hanesyddol roedd y ddrama yn ei gynnig?

TASG

PWNC: SAFON UWCH CYMRAEG UG

TASG ARHOLIAD ALLANOL: Y FFLIM A'R DDRAMMA A LLAFAREDD

Y dramâu gosod yw Siwan, Saunders Lewis, ac Y Tŵr, Gwenlyn Parry. Gall Ynys Alys fod yn elfen synoptig ddiddorol iawn mewn perthynas â'r ddwy ddrama uchod ar gyfer tasg yr arholiad allanol Safon Uwch Gyfrannol Cymraeg.

Ystyriwch:

- Pa themâu sy'n debyg rhwng Siwan, Y Tŵr ac Ynys Alys?
- A oes tebygrwydd yn y cymeriadu?
- Pa fath o straeon a geir yn y tri darn o waith?
- A oes tebygrwydd rhwng strwythur Ynys Alys a'r ddwy ddrama osod?
- Ystyriwch y gwedd dramatig a geir yn Ynys Alys – a ydy hynny'n wahanol i wead Siwan ac Y Tŵr?
- Pa heriau fuasai'n wynebu cwmni wrth gynhyrchu'r tair drama dan sylw?
- Wedi meddwl am y pwyntiau uchod, llenwch y tabl isod.

A oedd plot a strwythur storiol y ddrama'n effeithiol?



	Ynys Alys	Siwan	Y Tŵr
Cymeriadau: - Sawl cymeriad. - Perthynas. - Rolau. - Swyddogaeth.			
Lleoliad y ddrama: -Un lleoliad neu fwy? -Realidd neu afreal?			
Amser y ddrama: -Perthyn i gyfnod penodol neu beidio?			
Iaith y ddrama: - Naturiolaidd neu'n annaturiol? -A oes defnydd o farddoniaeth? - Sut mae'r iaith yn adlewyrchu cymeriadau?			
Gwrthdaro mwyaf y ddrama: - Pa fath o enghreifftiau o wrthdaro a welir? - A oes gwrthdaro dan yr wyneb ynghyd ag yn echblyg?			
Themâu'r ddrama: - Pa rai? - A ydyn nhw'n cael eu datblygu'n ddigonol?			
Symbolaeth: - Pa symbolau a ddefnyddir? - A oes symbolau gweledol? - A oes symbolau yn nhestun y sgript?			

**DATBLYGWYD Y PECYN HWN GAN
GARETH EVANS -JONES GYDA CHEFNOGAETH
FRÂN WEN.**

FRÂN WEN

**YR HEN YSGOL GYNRADD, PORTHAETHWY, YNYS MÔN, LL59 5HS
01248 715048 . FRANWEN.COM . POST@FRANWEN.COM**